


# REVIEW OF THE YEAR

# GOLWG AR Y FLWYDDYN

2020

RSAW

Architecture.com/wales

# WELCOME CROESO



**Ryan Stuckey**

President/Llywydd RSAW
2019 - 2021

2020, a tumultuous year that we will never forget. A year of change as an organisation has led the RSAW and architects in Wales to become a tighter knit community embracing collaboration, communication and digital connectivity, as well as offering support and a friendly face. A big thank you to all those involved in making these things happen and embracing the challenges thrown in our path.

2021 is uncertain, but hopefully we can see a path to a new normal that will embrace our new skill sets learned from the adversity of the last year. The RSAW team continues to work towards a provision of services and events that will continue to demonstrate our successes and achievements to the wider RIBA and world-wide architecture community.

The RSAW team continue to communicate with the RIBA, ARB, Welsh Government and other bodies to ensure that architects in Wales have a voice, and in turn receive up-to-date information and knowledge. Current hot topics include Professional Indemnity Insurance issues, changes to the Architects Act 1997 and constant revisions to construction legislation.

Thank you to everyone for pulling together this year, and I really hope that I can meet people face to face again soon. I'll sign off with my favourite quote from 2020, "YOU'RE ON MUTE, RYAN".

2020, blwyddyn gythryblus na wnawn ni byth mo'i hanghofio. Mewn blwyddyn o newidiadau i ni fel sefydliad, daeth RSAW a phenseiri yng Nghymru yn gymuned fwy clòs sy'n cofleidio cydweithio, cyfathrebu a chysylltiad digidol, gan gynnig cefnogaeth a gwên. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi helpu i sicrhau bod y pethau hyn yn digwydd, gan fynd i'r afael â'r heriau a ddaeth ar ein traws.

Mae'r rhagolygon ar gyfer 2021 yn ansicr ond gobeithio y gwelwn lwybr at normal newydd a fydd yn elwa ar y sgiliau newydd a ddysgwyd ynghanol anawsterau y llynedd. Mae tîm RSAW yn dal i ymdrechu i ddarparu gwasanaethau a digwyddiadau a fydd yn dangos ein llwyddiannau a'r hyn a gyflawnwyd gennym i aelodau eraill RIBA ac i'r gymuned bensaernïol yn fyd-eang.

Mae tîm RSAW yn dal mewn cysylltiad â RIBA, ARB, Llywodraeth Cymru a chyrff eraill er mwyn sicrhau llais i benseiri yng Nghymru ac maen nhw, yn eu tro, yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Ymhlith y pynciau a drafodir mae Yswiriant Indemniad Proffesiynol, newidiadau i Ddeddf Penseiri 1997 a newidiadau parhaus i ddeddfwriaeth adeiladu.

Diolch i bawb am gyd-dynnu eleni a gobeithio'n fawr y caf i gyfarfod â phobl wyneb yn wyneb eto yn fuan. Ac i orffen, dyma fy hoff ddywediad o 2020, "TI AR MIWT, RYAN".



# WELCOME CROESO

## Elinor Weekley

Director/Cyfarwyddwr

We entered 2020 with ambition for RSAW and its members. Soon after, a pandemic hit which shook the world. The RSAW Team pursued with a new ambition to find ways to engage with and support members in Wales, which on reflection, was better than I could have ever imagined.

Meeting Chartered Practices and members, RSAW Branches and Council, virtually, by far outweighed what would have been possible in previous years. We discovered that we felt part of the same organisation, geographical challenges no longer exist and as a community we thrived.

New focus groups were created to broaden member engagement and to gain insight into the 'adjusted' world of architecture. New ways of working and delivering events were implemented, widening our reach and impact on the membership in Wales and beyond!

As I look forward to 2021 and what we have learnt from almost a year living in a pandemic, the RSAW will continue to focus on how we engage with members and the profession, delivering an enhanced political agenda, development of education and future architects and some key high profile events, such as the 28th RSAW Conference. I'm excited that the RSAW are the partner delivering the Optimised Retrofit CPD Programme which will be rolled out across 2021 and that we will see a Revealing Wales series 2, as well as a year of new honorary membership opportunities for the organisation and an incoming President for the RSAW.

Thank you Ryan Stuckey, RSAW President and members of RSAW Council and Branches for their commitment. Thank you RSAW members, you have continued to support the RSAW Team and we value this community.

Ar ddechrau 2020 roeddem yn llawn uchelgais ar gyfer RSAW a'i haelodau. Cyn hir, cawsom ein taro gan bandemig a oedd yn ysgwyd y byd. Aeth Tîm RSAW ati ag uchelgais newydd i ganfod ffyrdd o gadw mewn cysylltiad â'r aelodau yng Nghymru a'u cefnogi. O edrych yn ôl, fe wnaethom yn well nag y gallwn erioed fod wedi'i ddychmygu.

Roedd y profiad o gynnal cyfarfodydd ar-lein gyda phractisiau ac aelodau siartredig, canghennau a Chyngor RSAW, yn hollol wahanol i'r hyn a fuasai'n bosibl o'r blaen. Roeddem yn teimlo'n rhan o'r un gymdeithas, doedd daearyddiaeth ddim yn broblem ac fe wnaethom ni ffynnu fel cymuned.

Cafodd grwpiau ffocws newydd eu creu i dynnu aelodau i mewn ac i gael syniad o fyd pensaernïaeth ar ei newydd wedd. Daethpwyd o hyd i ffyrdd newydd o weithio a chynnal digwyddiadau, gan ein galluogi i gyrraedd mwy o bobl a chadw mewn cysylltiad â'r aelodau yng Nghymru a'r tu hwnt!
Wrth edrych ymlaen at 2021 a meddwl gymaint yr ydym wedi'i ddysgu ar ôl byw mewn pandemig am bron i flwyddyn, bydd RSAW yn dal i ganolbwyntio ar ffyrdd o ymwneud â'n haelodau a'r proffesiwn. Bwriadwn weithredu agenda wleidyddol well, datblygu dulliau o addysgu, meithrin penseiri'r dyfodol a chynnal digwyddiadau cyffrous fel Cynhadledd RSAW rhif 28. Mae'n deimlad cyffrous mai RSAW yw'r partner sy'n cynnig DPP Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a gyflwynir fesul tipyn yn 2021 ac y gwelwn ail gyfres o Revealing Wales. Yn ogystal, bydd cyfle i enwebu aelodau newydd er anrhydedd a bydd llywydd newydd RSAW yn dechrau ar ei dymor.

Diolch, Ryan Stuckey, Llywydd RSAW, ac aelodau Cyngor a Changhennau RSAW am eu hymroddiad. Diolch, aelodau RSAW, rydych wedi dal ati i gefnogi Tîm RSAW ac rydym yn gwerthfawrogi'r gymuned hon.

# BACKGROUND

**Tracing its origins back to the late 19th century, the Royal Society of Architects in Wales (RSAW) was granted the Royal pre-fix in 1994 and represents and supports around 650 Chartered Members of our parent body, the Royal Institute of British Architects (RIBA), who live and work in Wales.**

**RSAW represents the voice of the architectural profession in Wales, striving to influence Welsh Government and related agencies in Wales.**

**With a staff team based in Cardiff, the RSAW Council and members in four branches and special interest groups, we promote the value of good design through awards schemes, exhibitions, festivals and conferences, regularly working in partnership with other professional bodies and Welsh national organisations. We connect with leading figures in the political and creative arenas through our Honorary Member programme.**

# WHAT DOES RSAW DO?

- **Engaging members in the civic and political life of Wales**
  We work with partners to deliver high-profile, public-facing events such as the National Eisteddfod of Wales Gold Medal exhibition of architecture with Design Commission for Wales (DCFW).

- **Maintenance of professional standards**
  The RIBA and RSAW CPD programmes and platforms allow members to keep their knowledge up to date, and in line with new Welsh legislation where appropriate. The new RIBA Academy is a great compliment to the RSAW programmes and we continue to be a partner of the Built Environment Alliance Cymru. RSAW Conference is now able to be delivered across the RIBA, Nationally and Internationally.

- **Promotion of Architects**
  With exhibitions of each year's Award-winning buildings and through the Wales Festival of Architecture we promote the achievements of architects in Wales, from small scale to major projects. We co-publish with the University of Wales Press The Architecture of Wales series, while Touchstone journal provides an annual update on new and projected developments in Wales.

- **Welsh Government policy and influence**
  We work with members and engage with ministers and civil servants to allow us to be the voice of architects in Wales and we keep members informed through regular updates.

# CEFNDIR

**Mae gwreiddiau Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru (RSAW) yn dyddio yn ôl i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ond yn 1994 yr ychwanegwyd y gair "Brenhinol" at y teitl. Mae'n cynrychioli ac yn cefnogi tua 650 o Aelodau Siartredig o'n rhiant gorff, Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.**

**Mae RSAW yn cynrychioli llais y proffesiwn pensaernïol yng Nghymru, gan ymdrechu i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru ac asiantaethau cysylltiedig yng Nghymru.**

**Mae gennym dîm o staff yng Nghaerdydd, Cyngor RSAW, ac aelodau mewn pedair cangen a grwpiau diddordeb arbennig. Rydym yn hyrwyddo gwerth dylunio da trwy gynlluniau gwobrau, arddangosfeydd, gwyliau a chynadleddau, gan gydweithio'n rheolaidd â chyrff proffesiynol eraill a sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru. Rydym yn ymwneud â ffigurau blaenllaw yn y meysydd gwleidyddol a chreadigol trwy ein rhaglen Aelodau er Anrhydedd.**

## BETH MAE RSAW YN EI WNEUD?

- **Cynnwys aelodau ym mywyd dinesig a gwleidyddol Cymru**
  Rydym yn cydweithio â phartneriaid ar ddigwyddiadau mawr cyhoeddus e.e. arddangosfa Medal Aur Pensaernïaeth yr Eisteddfod Genedlaethol gyda Chomisiwn Dylunio Cymru.

- **Cynnal safonau proffesiynol**
  Mae rhaglenni a phlatfformau DPP gan RIBA ac RSAW yn gyfle i aelodau ddiweddaru eu gwybodaeth, yn unol â deddfwriaeth newydd yng Nghymru lle bo'n briodol. Mae Academi newydd RIBA yn cyd-fynd yn dda â rhaglenni RSAW ac rydym yn dal yn bartner yn Built Environment Alliance Cymru.  Erbyn hyn gall aelodau RIBA, ym Mhrydain a thramor, ymuno yng Nghynhadledd RSAW.

- **Hyrwyddo Penseiri**
  Trwy arddangosfeydd blynyddol o adeiladau sydd wedi ennill gwobrau a thrwy gynnal Gŵyl Bensaernïaeth Cymru, rydym yn tynnu sylw at yr hyn y mae penseiri'n ei gyflawni yng Nghymru, yn brosiectau bach a mawr. Rydym ni a Gwasg Prifysgol Cymru yn cydgyhoeddi cyfres The Architecture of Wales ac mae cylchgrawn Touchstone yn cyhoeddi newyddion am brosiectau newydd ac arfaethedig yng Nghymru bob blwyddyn.

- **Gwaith polisi a dylanwadu ar Lywodraeth Cymru**
  Rydym yn cydweithio â'r aelodau ac yn ymwneud â gweinidogion a gweision sifil fel y gallwn fod yn llais i benseiri yng Nghymru ac rydym yn cadw mewn cysylltiad â'r aelodau trwy anfon newyddion rheolaidd.

# 2020

1



2



3



4



1 Piushaven Harbour Pavilion, Civic Architects. Photo/Ffoto Stijn Bollaert

2 Maggie's Cardiff, Dow Jones Architects. Photo/Ffoto Anothony Coleman

3 Trawsfynydd. Photo/Ffoto Lyndon Jones & Bella Kerr

4 Active Buildings Workshop/Adeiladau Ynni Gweithredol ar Waith, Llandudno

# HIGHLIGHTS

## COVID-19

RSAW moved to 100% digital delivery of activities due to the COVID-19 Pandemic

RSAW Council met a record number of times in 2020 in response to the COVID-19 Pandemic

Branch activity and meetings moved online and created more inclusivity

RSAW contributes to the Welsh Construction Forum, chaired by Deputy Minister for Economy and Transport Lee Waters MS, bringing together leading figures from private and public sectors across Wales' construction industry along with Wales' social partners, to agree a way forward for the industry as it recovers from the coronavirus pandemic and to help Wales to "build back better".

## CPD & Events

Nine CPD events across the year

2020 Annual Conference - Reduce Reuse Recycle

Built Environment Alliance Cymru (BEAC) joint events - This BEAC is made up by RSAW, ICE, CEW, RICS, RTPI, CIOB, CIH and CIAT.

## Policy

Collaborative policy discussions with RIBA 5 Nations include Professional Indemnity Insurance, Amendments to the Architects Act (1997), The Way Ahead.

RSAW meets with its members to consult on the Welsh Governments consultations on Part L & F of the Building Regulations, Mandatory Quality Standards for New Homes and the proposed Amendments to the Architects Act (1997).

## Initiatives

Revealing Wales Series 2 is in production and will be launched in Summer 2021.

Small Practice Network formed. A forum for sole practitioners, small practices and emerging practices to share, collaborate and support.

## Education

Student Mentoring programme reinstated for year 3 students studying at the Welsh School of Architecture and the University of Wales Trinity Saint David. We have 28 mentors and 44 students involved in our 2020/2021 programme.

Future Architects Network launched by the RIBA in 2020 is a network for future and emerging architects designed to support, inspire and provide a voice as students transition from study to practice. It supports students all the way through their educational journey and offers advice and information about studying architecture.

RSAW have been working closely with Schools of Architecture in Wales to develop a suite of activity for students and to promote what Future Architects can bring to them in Wales and across the UK.

# UCHAFBWYNTIAU

## COVID-19

Dechreuodd RSAW gynnal ei holl weithgareddau'n ddigidol o ganlyniad i bandemig COVID-19

Cyfarfu Cyngor RSAW yn amlach nag erioed yn 2020 mewn ymateb i bandemig COVID-19

Dechreuwyd cynnal gweithgareddau a chyfarfodydd y canghennau ar lein gan eu gwneud yn fwy cynhwysol

Mae RSAW yn cyfrannu at Fforwm Adeiladu Cymru, o dan gadeiryddiaeth Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters AS. Mae'n dwyn ynghyd ffigurau blaenllaw o ddiwydiant adeiladu Cymru, yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, i gefnogi'r diwydiant wrth iddo ddod dros bandemig y coronafeirws.

## DPP a Digwyddiadau

Naw digwyddiad DPP yn ystod y flwyddyn

Cynhadledd Flynyddol 2020 – Arbed, Ailddefnyddio, Ailgylchu

Digwyddiadau ar y cyd gyda Built Environment Alliance Cymru (BEAC) - Y cyrff sy'n aelodau o BEAC yw RSAW, ICE, CEW, RICS, RTPI, CIOB, CIH a CIAT.

## Polisi

Cafwyd trafodaethau polisi rhwng y pum gwlad sy'n aelodau o RIBA ar faterion fel Yswiriant Indemniad Proffesiynol, Diwygiadau i Ddeddf Penseiri (1997), The Way Ahead.

Cyfarfu RSAW â'i haelodau i drafod ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ar Rannau L ac F o'r Rheoliadau Adeiladu, Safonau Ansawdd Gorfodol ar gyfer Cartrefi Newydd, a'r Diwygiadau arfaethedig i Ddeddf Penseiri 1997.

## Cynlluniau

Mae ail gyfres Revealing Wales wrthi'n cael ei chynhyrchu ac fe gaiff ei lansio yn haf 2021.

Ffurfiwyd Rhwydwaith Practisiau Bychan. Fforwm ar gyfer practisiau bach ac unigol a phractisiau newydd i roi cyfle i rannu, cydweithio a chefnogi ei gilydd.

## Addysg

Cafodd y rhaglen Mentora Myfyrwyr ei hadfer ar gyfer myfyrwyr 3edd flwyddyn sy'n astudio yn Ysgol Bensaernïaeth Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae gennym 28 o fentoriaid a 44 o fyfyrwyr yn cymryd rhan yn rhaglen 2020/2021.

Mae'r Future Architects Network a lansiwyd gan RIBA yn 2020 yn rhwydwaith ar gyfer darpar benseiri a phenseiri newydd. Ei nod yw cefnogi ac ysbrydoli myfyrwyr a rhoi llais iddynt yn y cyfnod pontio rhwng astudio a gweithio. Mae'n cefnogi myfyrwyr ar eu taith addysgol ac yn cynnig cyngor a gwybodaeth am astudio pensaernïaeth.

Bu RSAW yn cydweithio'n agos ag ysgolion pensaernïaeth Cymru i ddatblygu gweithgareddau ar gyfer myfyrwyr ac i hyrwyddo gweithgareddau Future Architects ar eu cyfer yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig.

REDUCE – REUSE – RECYCLE

# ANNUAL CONFERENCE



The Resource Rows, Lendager Group. Photo/Ffoto Rasmus Hjortshoj

Lke many things in 2020, the 27th RSAW Annual Conference was delivered digitally due to the coronavirus pandemic. Taking place across a week in November, 309 delegates from across Wales, the UK and Internationally, joined speakers and contributors in a series of webinars to contemplate the three R's in architecture: Reduce, Reuse, Recycle.

The speakers across the week showed delegates how the architectural profession can work together to reduce waste and design within the limits of our environment.

The week began with a focus on heritage. John Edwards (Edwards Hart Consultants) examined how best to raise standards in energy efficiency retrofit, while Edward Holland (Holland Heritage) outlined the main challenges of adaptive reuse.

The student day considered how background and culture can influence design ethos (George Aboagye Williams), informed many of the student delegates of RIBA's Future Architects programme (Kate Hunter, RIBA) and showcased the innovative Re-Fabricate initiative (Paul Daramola).

We looked at place and space in a post-pandemic context. Nicola Gillen (Cushman and Wakefield) analysed the future of office spaces and Sarah Featherstone (Featherstone Young) shared with delegates her thoughts on light-touch living and designing in 'baggy' space.

With a focus to housing, Justin Bere (bere:architects) scrutinised the role of Passivhaus, Steven Harris and Catherine Roberts (CRSH Energy and Architecture) provided an update on the performance of their net-zero home 10 years after its construction and Andy Sutton (Sero Homes) detailed Sero's continued work on optimised retrofit.

To round off the week, delegates welcomed two international speakers to give an overview of their respective works. Anders Lendager (Lendager Group) provided a whistle-stop tour of his vast experience of building with waste, while Ingrid van der Heijden (Civic Architects) gave an overview of her practice's public architecture – a series of generous buildings and places.

Co-hosts were Rockpanel, event sponsors were Sero Homes, Vandersanden and Design Commission for Wales

> **"It was excellent from start to finish. I was particularly pleased that the presentations were spread out over the week and across each day, as I have found day-long online webinars tiring."**

# Y GYNHADLEDD FLYNYDDOL

Fel llawer o ddigwyddiadau yn 2020, cynhaliwyd  Cynhadledd Flynyddol RSAW – rhif 27, yn ddigidol oherwydd pandemig y coronafeirws. Cynhaliwyd cyfres o weminarau dros gyfnod o wythnos ym mis Tachwedd pan ymunodd 309 o gynadleddwyr o Gymru, Prydain a'r tu hwnt â siaradwyr a chyfranwyr i ystyried y tair A mewn pensaernïaeth: Arbed, Ailddefnyddio, Ailgylchu.

Yn ystod yr wythnos, dangosodd y siaradwyr i'r cynadleddwyr sut y gall y proffesiwn pensaernïol gydweithio i leihau gwastraff ac i ddylunio oddi mewn i derfynau ein hamgylchedd.

Treftadaeth oedd y thema ar ddechrau'r wythnos. Bu John Edwards (Edwards Hart Consultants) yn ystyried sut orau i godi safonau wrth ôl-osod er mwyn arbed ynni a chafwyd amlinelliad o brif heriau addasu hen adeiladau i'w defnyddio at ddibenion newydd gan Edward Holland (Holland Heritage).



Shoe Museum, Waalwijk, Civic Architects. Photo/Ffoto DarcStudio

> **Roedd yn ardderchog o'r dechrau i'r diwedd. Ro'n i'n arbennig o falch bod y sesiynau wedi'u gwasgaru dros y dyddiau a thros yr wythnos, oherwydd rwy'n blino os ydw i mewn gweminarau trwy'r dydd.**

Ar ddiwrnod y myfyrwyr, ystyriwyd sut y gall cefndir a diwylliant ddylanwadu ar ethos dylunio (George Aboagye Williams), rhoddwyd gwybod i lawer o'r myfyrwyr am raglen Future Architects RIBA (Kate Hunter, RIBA) a chafwyd golwg ar gynllun arloesol Re-Fabricate (Paul Daramola).

Buom yn ystyried effaith y pandemig ar leoedd a gofod. Bu Nicola Gillen (Cushman and Wakefield) yn dadansoddi dyfodol swyddfeydd a bu Sarah Featherstone (Featherstone Young) yn rhannu ei meddyliau am fyw â chyffyrddiad ysgafn a dylunio ar gyfer lle hyblyg.

Trafodwyd cartrefi hefyd. Rôl Passivhaus oedd pwnc Justin Bere (bere:architects), rhoddodd Steven Harris a Catherine Roberts (CRSH Energy and Architecture) ddiweddariad ar berfformiad eu cartref sero-net 10 mlynedd ar ôl ei adeiladu a bu Andy Sutton (Sero Homes) yn sôn am waith Sero yn ôl-osod er mwyn optimeiddio.

I gau pen y mwdwl, croesawyd dau siaradwr rhyngwladol i roi cipolwg ar eu gwaith. Aeth Anders Lendager (Lendager Group) â ni ar daith wib trwy ei brofiad helaeth o adeiladu â defnyddiau gwastraff, a rhoddodd Ingrid van der Heijden (Civic Architects) olwg ar bensaernïaeth gyhoeddus ei phractis hi – cyfres o adeiladau a llecynnau helaeth.

Trefnwyd ar y cyd â Rockpanel a noddwyd y digwyddiad gan Sero Homes, Vandersanden a Chomisiwn Dylunio Cymru

# 2020 AWARDS SHORTLIST

On 5th June 2020, RSAW announced the 2020 Welsh Architecture Awards shortlist, which consisted of the House in North Wales, by Martin Edwards Architects, Tŷ Pawb, Wrexham, by Featherstone Young and Maggie's Cardiff, Cardiff by Dow Jones Architects.

Due to the COVID-19 Pandemic, the 2020 RSAW Awards jury were unable to undertake its rigorous judging process, therefore no winners were announced in 2020.

The 2021 RIBA UK Awards (including Regional, National and the RIBA Stirling Prize) will be selected from the shortlist for the 2020 RIBA Regional, RIAS, and RSAW Awards.

RSAW look forward to celebrating with you all later in the year!




Maggie's Cardiff, Dow Jones Architects. Photo/Ffoto Anothony Coleman

# RHESTR FER GWOBRAU 2020

Ar 5 Mehefin 2020, cyhoeddodd RSAW restr fer Gwobrau Pensaernïaeth Cymru 2020. Roedd yn cynnwys tŷ yng ngogledd Cymru gan Martin Edwards Architects; Tŷ Pawb, Wrecsam gan Featherstone Young a chanolfan Maggie's, Caerdydd gan Dow Jones Architects.

Oherwydd pandemig COVID-19, nid oedd modd i reithgor Gwobrau RSAW 2020 fynd trwy'r broses feirniadu drwyadl arferol ac felly ni chyhoeddwyd enwau enillwyr 2020.

Dewisir enillwyr Gwobrau RIBA y DU 2021 (yn cynnwys y gwobrau Rhanbarthol, Cenedlaethol a'r RIBA Stirling Prize) o blith rhestrau byrion Gwobrau RSAW, RIAS a Gwobrau Rhanbarthol RIBA 2020.

Mae RSAW yn edrych ymlaen at ddathlu gyda phawb ohonoch yn nes ymlaen yn y flwyddyn!




Tŷ Pawb, Wrexham,/Wrecsam, Featherstone Young. Photo/Ffoto James Morris

# 2020:FIGURES/2020:FFIGURAU

## 620

81% of ARB registered architects are RSAW Chartered Members

Mae 81% o'r penseiri a gofrestrwyd gyda'r ARB yn Aelodau Siartredig o RSAW

## 446

Student members - 58.8% increase since 2019

ag aelodaeth myfyrwyr – cynnydd o 58.8% ers 2019

## 27

309 delegates booked on to the 27th RSAW Annual Conference

309 o gynadleddwyr wedi cofrestru ar gyfer Cynhadledd Flynyddol RSAW rhif 27

## 420

Recorded attendances for RSAW events, in person and online

Y presenoldeb a gofnodwyd yn nigwyddiadau RSAW, wyneb yn wyneb ac ar lein

## 506 %

The RSAW Instagram account gained a significant follow during 2020

Dechreuodd llawer o bobl ddilyn cyfrif Instagram RSAW yn 2020'

## 52

Chartered practice, member meetings and engagements were conducted to help RSAW learn how best to support the membership in Wales throughout the COVID-19 pandemic.

Nifer y cyfarfodydd a'r cysylltiadau a gynhaliwyd gydag aelodau a phractisiau siartredig i helpu RSAW i ddysgu sut orau i gefnogi'r aelodau yng Nghymru yn ystod pandemig COVID-19.

# What will RSAW bring to 2021?

# Beth fydd hanes RSAW yn 2021?

PAS 2035 Training
Hyfforddiant PAS 2035

Optimised Retrofit CPD Programme Partner
Partner Rhaglen DPP Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

Working in partnership with Chartered Practices on Climate Emergency Series
Gweithio mewn partneriaeth â Phractisiau Siartredig ar Gyfres Argyfwng Hinsawdd

Touchstone 2021

Revealing Wales Series 2
Revealing Wales Cyfres 2

RSAW key priorities ahead of the Welsh Government elections
Blaenoriaethau allweddol RSAW cyn etholiadau'r Senedd

New RSAW Policy strategy for 2021
Ffordd newydd o wneud gwaith polisi RSAW yn 2021

New RSAW Council structure and purpose
Addasu strwythur a phwrpas Cyngor RSAW

Honorary members programme 2021
Rhaglen Aelodau er Anrhydedd 2021

2021 RSAW Awards and Introducing the new Student Awards
Gwobrau RSAW 2021 a chyflwyno'r Gwobrau Myfyrwyr

Future Architects and Schools of Architecture engagement
Ymwneud â Future Architects a'r Ysgolion Pensaernïaeth

Schools 'representatives' initiative
Cynllun 'cynrychiolwyr' ysgolion

Student mentoring programme widens
Ehangu'r rhaglen mentora myfyrwyr

'Mini' Spring School
Ysgol Wanwyn 'Fach'

Small Practice Network CPD series
Cyfres DPP i'r Rhwydwaith Practisiau Bach

28th RSAW Conference
Cynhadledd RSAW – yr 28ain

RSAW Design Week
Wythnos Ddylunio RSAW

Continued partnership with the Built Environment Alliance Cymru
Parhau â'r bartneriaeth gyda'r Built Environment Alliance Cymru



The Severn Bridge. was featured in the Revealing Wales Series. Photo/Ffoto Richard Parnaby
Cover image: House in North Wales, Martin Edwards architects. Photo/FfotoMax Creasy

**RSAW team/ Tîm RSAW**
Honorary Officers/Swyddogion Mygedol:
President/Llywydd: Ryan Stuckey;
President-Elect/Darpar Lywydd: Gavin Traylor;
Honorary Secetary/Ysgrifennydd Mygedol: Geraint Roberts;
Honorary Treasurer/Trysorydd Mygedol: Andy Sutton;
Branch Chairs/Cadeiryddion y Canghennau:
Gavin Orton, Richard Lewis, Derwyn Owen, Twm Harris-Davies.

**Staff:**
Elinor Weekley, Director/Cyfarwyddwr;
Thomas Webb, Projects and Policy Coordinator/Cydlynydd Prosiectau a Pholisi;
Bethan Proctor, Events and Professional Development Coordinator/ Cydlynydd DPP a Digwyddiadau

The RSAW is the Royal Institute of British Architects in Wales
RSAW yw Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain yng Nghymru

Studio 111
The Creative Quarter
Morgan Arcade/ Arcêd Morgan
Cardiff/ Caerdydd
CF10 1AF
www.architecture.com/wales
029 2022 8987

RSAW
Architecture.com/wales